

2020 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Garth, Powys) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2020

Gwnaed

9 Mawrth 2020

Yn dod i rym

13 Mawrth 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Garth, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 13 Mawrth 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2020 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A483 Trunk Road (Garth,
Powys) (Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2020

Made

9 March 2020

Coming into force

13 March 2020

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Garth, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 13 March 2020.

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 07:00 ar 13 Mawrth 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Mawrth 2020

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

1. Y darn o’r gefnffordd i’r gorllewin o Garth sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r lôn sy’n arwain at Maesllech Farm hyd at ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sirol sy’n arwain at Langamarch.

2. Y darn o’r gefnffordd i’r dwyrain o Garth sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol y B4519 sy’n arwain at Gapel Uchaf hyd at ganolbwynt ei chyffordd â’r lôn sy’n arwain at Aberbwtran.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 07:00 on the 13 March 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 9 March 2020

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

SCHEDULE

1. The length of the trunk road to the west of Garth that extends from the centre-point of its junction with the lane leading to Maesllech Farm to the centre-point of its junction with the county road leading to Llangammarch Wells.

2. The length of the trunk road to the east of Garth that extends from the centre-point of its junction with the B4519 county road leading to Upper Chapel to the centre-point of its junction with the lane leading to Aberbwtran.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(GARTH, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU
DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Garth, Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar:

i) y darn o'r gefnffordd i'r gorllewin o Garth sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Maesllech Farm hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol sy'n arwain at Langamarch; a

ii) y darn o'r gefnffordd i'r dwyrain o Garth sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol y B4519 sy'n arwain at Gapel Uchaf hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Aberbwtran.

Y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar yr A483 tua'r de-orllewin i Lanymddyfri, yr A40 tua'r dwyrain i Aberhonddu, yr A470 tua'r gogledd i Lanfair-ym-Muallt a'r A483 tua'r gorllewin. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig trwodd sy'n teithio tua'r gorllewin.

Disgwylir i'r gwaith gael ei wneud fesul cam a'r bwriad yw na fydd y darnau o'r A483 a ddisgrifir uchod yn cael eu cau ar yr un pryd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 07:00 o'r gloch ar 13 Mawrth 2020 hyd 19:00 o'r gloch ar 15 Mawrth 2020, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://lyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**THE A483 TRUNK ROAD (GARTH, POWYS)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Garth, Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works) from proceeding on:

i) the length of the trunk road to the west of Garth that extends from the centre-point of its junction with the lane leading to Maesllech Farm to the centre-point of its junction with the county road leading to Llangammarch Wells; and

ii) the length of the trunk road to the east of Garth that extends from the centre-point of its junction with the B4519 county road leading to Upper Chapel to the centre-point of its junction with the lane leading to Aberbwtran.

The alternative route for eastbound through traffic will be via the south-westbound A483 to Llandoverly, eastbound A40 to Brecon, northbound A470 to Builth Wells and westbound A483. Vice versa for westbound through traffic.

The works are expected to take place in phases and it is proposed that lengths of the A483 described above will not be closed at the same time.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 07:00 hours on 13 March 2020 until 19:00 hours on 15 March 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

J SADDLER
Transport
Welsh Government